



GIG
CYMRU
NHS
WALES

**Rhaglen Delweddu
Genedlaethol
National Imaging
Programme**

Cylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol Ch3 2024-25

Croeso i unfed rhifyn Cylchlythyr y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol!

Ers diwedd y chwarter diwethaf, cynhaliodd tîm Y Rhaglen Delweddu Genedlaethol, ar y cyd ag Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru, Gynhadledd Flynyddol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol ar Ddiwrnod Radiograffeg y Byd (WRD). Roedd hwn yn ddiwrnod gwych gyda phresenoldeb da yn y cnawd ac ar-lein, sgysiau gan brif siaradwyr a nifer o noddwyr, a daeth i ben gyda gwobrau Sêr Delweddu 2024 i gydnabod gwaith gwych ein cydweithwyr mewn Adrannau Radioleg ledled Cymru! Ar ben hynny, heriodd ein Amanda Evans dymheredd is-sero Chicago i'n cynrychioli yng Nghymdeithas Radiolegol Gogledd America (RSNA) ac yn ddiweddar, mae wedi cael ei phenodi i sedd Cymru ar gyfer cyngor Cymdeithas Radiograffwyr y DU! Gweler ein Nodweddion Arbennig isod.

Yn olaf, hoffai pawb yn y Rhaglen Delweddu Genedlaethol ddymuno Nadolig llawen iawn a blwyddyn newydd dda i chi i gyd, gobeithio y gallwch chi i gyd fwynhau egwyl haeddiannol dros dymor yr ŵyl!

National Imaging Programme Newsletter Q3 2024-25

Welcome to the eleventh edition of the National Imaging Programme Newsletter!

Since the end of the last quarter, The National Imaging Programme team, in conjunction with the National Imaging Academy of Wales, hosted the National Imaging Programme Annual Conference on World Radiography Day (WRD). This was a great day with good in-person and online attendance, talks from keynote speakers and numerous sponsors, culminating with the 2024 Imaging Stars awards to recognise the fabulous work of our colleagues in Radiology Departments across Wales! Furthermore, our very own Amanda Evans braved the sub-zero temperatures of Chicago to represent us at the Radiological Society of North America (RSNA) and has recently been appointed to the Welsh seat for the Society of Radiographer UK council! Please see our Special Features below.

Finally, everyone at the National Imaging Programme would like to wish you all a very merry Christmas and a happy new year, hopefully you can all enjoy some well-deserved rest over the holiday season!

Diweddariadau ar y Ffrydiau Gwaith

Workstream Updates

Gweithlu ac Addysg

Workforce and Education

Diweddariadau prosiect

- Darparwyd rhagor o ddiweddariadau ynghylch cwmpasu argymhellion papur y gweithlu Uwchsain yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsnewid Gweithlu Delweddu ac Addysg (IWETG) a Grŵp Strategol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSG) ym mis Tachwedd. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi ailgomisiynu'r cwrs Uwchsain ôl-raddedig yn UWE a fydd yn dechrau ym mis Ionawr. Maent wedi cynyddu nifer y lleoedd a ariennir sydd ar gael i adrannau yng Nghymru.
- Mae prosiect Ymarferydd Uwch yn symud ymlaen yn dda, cynhyrwyd SBAR sy'n amlinellu'r diffiniadau o ymarfer gwell ac uwch. Mae hyn wedi cael ei gylchredeg drwy aelodau'r IWETG, y Grŵp Penaethiaid Radiograffeg Proffesiynol (RPHG) a'r Fforwm Ansawdd Delweddu Cymru Gyfan (AWIQF) ac mae cynlluniau i drafod y ddogfen hon o fewn grŵp gorchwyl a gorffen yn gynnar yn y flwyddyn newydd i'w chwblhau. Datblygwyd JDs safonol ochr yn ochr â'r diffiniadau ac mae adborth yn cael ei gasglu cyn cyflwyno i baru â swyddi.
- Cyflwynwyd papur sy'n archwilio gwariant cyfredol y gweithlu o fewn adrannau delweddu Cymru o'r enw "opportunities for aligning current variable pay within imaging to sustainable workforce solutions" yng nghyfarfodydd mis Rhagfyr y Grŵp Strategol a Gweithredol Diagnostig (DSOG) a'r NIPSG. Cymeradwywyd y gofynion ynghylch cymorth pellach gan y grŵp i'r NIP ymgymryd â chasglu gwybodaeth bellach. Rhan o'r argymhellion oedd mynd at AaGIC i gael cymorth ar gyfer ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer radiolegwyr ymgynghorol. Cynhelir cyfarfodydd ynglŷn â hyn yn ddiweddarach ym mis Rhagfyr.
- Mae'r prosiect rheoli ac arweinyddiaeth yng nghyfnod 1

Project updates

- Further updates regarding scoping the Ultrasound workforce paper recommendations were provided at both the Imaging Workforce and Education Transformation Group (IWETG) and the National Imaging Programme Strategic Group (NIPSG) meetings in November. Health Education and Improvement Wales (HEIW) have recommissioned the post graduate Ultrasound course at UWE which will commence in January. They have increased the number of funded places available to departments in Wales.
- Advanced Practitioner project is progressing well, an SBAR outlining the definitions of enhanced and advanced practice has been produced. This has been circulated through IWETG, Radiographer Professional Heads Group (RPHG) and All Wales Imaging Quality Forum (AWIQF) members and there are plans to discuss this document within a task and finish group early in the new year for finalisation. Standardised JDs have been developed alongside the definitions and feedback is being gathered prior to submitting to job matching.
- A paper examining the current workforce expenditure within Welsh imaging departments entitled "opportunities for aligning current variable pay within imaging to sustainable workforce solutions" was presented at the December Diagnostic Strategic and Operational Group (DSOG)s and NIPSG meetings. The asks regarding further support from the group for the NIP to undertake further information gathering was approved. Part of the recommendations were to approach HEIW to gain assistance for targeted recruitment campaigns for consultant radiologists. Meetings are taking place regarding this later in December.

gan obeithio symud ymlaen i gam 2 yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

- Rydym yn dechrau ffurfio ein cynlluniau ar gyfer 25/26 a byddem wrth ein bodd yn clywed gan ein rhanddeiliaid ynghylch unrhyw heriau yr ydych yn teimlo y dylem fod yn darparu cymorth yn eu cylch fel rhaglen.

Cydweithrediadau

- Roedd 'digwyddiad cymuned ymarfer' y NIP ym mis Hydref yn gynhyrchiol ac mae'r wybodaeth a gasglwyd eisoes wedi'i rhannu gydag AaGIC. Roedd allbynnau pellach o'r darn hwn o waith yn cynnwys datblygu swydd-ddisgrifiad Hwylusydd-Addysgwr Ymarfer (PEF) rhanbarthol sydd hefyd wedi'i rannu gyda'n cydweithwyr yn AaGIC. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen o hyd gyda datblygiad SBAR ategol sydd wedi'i rannu gyda'n cymuned o randdeiliaid ymarfer. Mae rhagor o gydweithio ynglŷn â swydd-ddisgrifiadau a chyllid PEF yn parhau gydag arweinydd gweithlu diagnostig o fewn y weithrediaeth. Hoffem ddiolch i bawb ynglŷn â'u hymgysylltiad â'r darn hwn o waith.
- Mae'r arweinydd gweithlu diagnostig mewn cydweithrediad ag arweinydd cadw AaGIC wedi datblygu cyfres o 3 gweithdy cadw sy'n rhedeg dros fis Rhagfyr. Y nodau allweddol yw cyflwyno staff i'r offerynnau cadw sydd newydd eu datblygu sydd i'w gweld drwy'r platfform Gwella. Mae tynnu sylw at bwysigrwydd cadw a sut mae cadw yn rhywbeth yr ydym i gyd yn chwarae rôl ynddo wrth wella o fewn ein harbenigeddau a'n hadrannau priodol.

- [Hyb Cadw Cenedlaethol - Porth Arweinyddiaeth AaGIC i Gymru Gwella.](#)

- Yn dilyn llwyddiant y Grŵp Gweithwyr Cymorth Delweddu (ISWG), mae Lisa a Gill bellach yn rhan o'r grŵp arbenigol sy'n cefnogi gwaith SoR a ariennir gan HEE i edrych ar y gweithlu cymorth a chynorthwyol mewn

- The management and leadership project is in phase 1 with hopes to progress to phase 2 early in the new year.

- We are starting to form our plans for 25/26 and would love to hear from our stakeholders regarding any challenges that you feel we should be supporting with as a programme.

Collaborations

- The NIP 'community of practice event' in October was productive and the information gathered has already been shared with HEIW. Further outputs from this piece of work have been the development of a regional Practice Educator Facilitator (PEF) job description that has also been shared with our colleagues in HEIW. Work is still on going with the development of a supporting SBAR that has been shared with our community of practice stakeholders. Further collaboration regarding the PEF job descriptions and funding is ongoing with diagnostic workforce leads within the executive. We would like to thank all regarding their engagement into this piece of work.
- The diagnostic workforce leads in collaboration with the HEIW retention lead have developed a series of 3 retention workshops that are running over December. The key aims are to introduce staff to the newly developed retention tools that can be found via the Gwella platform. To highlight the importance of retention and how retention is something we all play a role in improving within our respective specialities and departments.

- [National Retention Hub - Gwella HEIW Leadership Portal for Wales.](#)

- Following the success of the Imaging Support Worker Group (ISWG), Lisa and Gill are now part of the expert group

delweddu. Maent hefyd wedi cwrdd a chael trafodaethau gyda radiograffwyr sydd hefyd yn ymgymryd â gwaith i'r SoR a'r HEE ynghylch y gweithlu radiograffwyr gwell ac uwch.

I gael rhagor o wybodaeth am Ffrwd Waith y Gweithlu ac Addysg, e-bostiwrch

Gill.Lingwood2@wales.nhs.uk

supporting SoR work funded by HEE to look at the support and assistant workforce in imaging. They have also met and had discussions with radiographers who are also undertaking work for both the SoR and HEE regarding the enhanced and advanced radiographer workforce.

For further information on the Workforce and Education Workstream, please contact Gill.Lingwood2@wales.nhs.uk

Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr

Llwyddiannau Allweddol Ch3 2024/25

- Mae'r Grwpiau Ansawdd Modd yn symud ymlaen yn dda gyda Grŵp Delweddu Ymyrrol newydd yn cael ei sefydlu yn 2025 — hwn fydd y 5^{ed} Grŵp sydd wedi'i greu o dan y ffrwd waith.
- Aeth Arweinydd y Rhaglen a'r Uwch Reolwr Prosiect i'r Cyfarfod Meddygaeth Niwclear Cymru Gyfan fel arsylwyr ym mis Rhagfyr 2024, gan gynnal cysylltiadau â'r grwpiau Ansawdd dan arweiniad y Rhaglen.
- Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu ynghylch caffael a chynnal a chadw Offer Diogelu Personol Ymbelydredd a Wisgir. Mae'r grŵp hwn wedi gwneud cynnydd da gyda drafft cyntaf o'r canllawiau yn cael ei gynhyrchu, a chysylltiadau yn cael eu gwneud â chydweithwyr Caffael i archwilio gwiriadau sicrhau ansawdd pellach ynghylch prynu'r eitemau hyn.
- Bydd Canllawiau Marcwyr Ochr Anatomegol yn cael eu cyflwyno yn DSOG ym mis Chwefror 2025, ac yna gobeithio y caiff eu rhannu â Grŵp Cynghori Gwyddonol Cymru ar gyfer eu rhannu'n ehangach ledled Cymru

Quality, Safety and User Experience

Q3 2024/25 Key Achievements

- The Modality Quality Groups are progressing well with a new Interventional Imaging Group being established in 2025 – this will be the 5th Group to be created under the workstream.
- The Programme Lead and Senior Project Manager attended the All Wales Nuclear Medicine Meeting as observers in December 2024, maintaining links with the Programme-led Quality groups.
- A Task and Finish Group has been established around procurement and maintenance of Worn Radiation Personal Protection Equipment. This group has made good progress with a first draft of the guidance being produced, and links being made with Procurement colleagues to explore further quality assurance checks around the purchasing of these items.
- Anatomical Side Markers Guidance will be presented at DSOG in February 2025, and then will hopefully be shared with the Welsh Scientific Advisory Group for wider sharing across Wales
- An All-Wales Non-Medical Referrer SBAR will be discussed at DSOG in February 2025 where next steps will be

- Bydd SBAR Atgyfeirwyr Anfeddygol Cymru Gyfan yn cael ei drafod yn y DSOG ym mis Chwefror 2025 lle bydd y camau nesaf yn cael eu hystyried.
- Mae'r treial Beichiogrwydd Cynhwysol yn parhau yn SBUHB a bydd yn rhoi diweddariad manwl i'r fforwm Ansawdd Delweddu Cymru Gyfan yn gynnar y flyddyn nesaf.

Prosiect QSI

- Cyflwynwyd yr Achos Busnes ar gyfer Gweithredu QSI (Safonau Ansawdd ar gyfer Delweddu) o fewn GIG Cymru i'r Grŵp Strategol a Gweithredol Diagnostig (DSOG) ym mis Rhagfyr lle cymeradwyodd y grŵp yr argymhelliad i GIG Cymru fynd yn ei flaen i lawr y llwybr hwn. Mae hon yn garreg filltir ardderchog ar gyfer Prosiect QSI. Y camau nesaf ar gyfer y Prosiect hwn yw symud ymlaen i'r Bwrdd Gofal Cynlluniedig ym mis Ionawr i drafod y llwybr ariannu i symud ymlaen â'r broses o gyflwyno QSI.

Prosiect Deallusrwydd Artiffisial (AI)

- Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen ddiweddariad am y Grŵp Strategaeth AI yng nghyfarfod Grŵp Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSG). Roedd hyn yn cynnwys diweddariad ar gynlluniau ar gyfer creu blwch tywod o ddata dienw ar gyfer profion ac ymchwil bellach, yn seiliedig ar ddata dienw gan gleifion Cymru. Bydd y blwch tywod hwn yn caniatáu i'r grŵp brofi gwahanol ddatrysiadau AI ar gleifion a seilwaith GIG Cymru.
- Mae'r Grŵp Strategaeth AI wedi datblygu gwaith gyda dau ddatrysiad AI Oedran Esgyrn ac mae'n bwrw ymlaen â'r gwaith hwn gyda BoneXpert. Bydd pob bwrdd iechyd yn cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) cyn gosod y datrysiad.

considered.

- The Inclusive Pregnancy trial continues in SBUHB and will be providing a detailed update to the All Wales Imaging Quality forum early next year.

QSI Project

- The Business Case for the Implementation of QSI (Quality Standards for Imaging) in NHS Wales was presented to the Diagnostic Strategic and Operational Group (DSOG) in December where the group endorsed the recommendation for NHS Wales to proceed down this route. This is an excellent milestone for the QSI Project. The next steps for this Project are to proceed to the Planned Care Board in January to discuss the funding route to progress the roll-out of QSI.

AI Project

- The Programme Manager presented an update on the AI Strategy Group at the National Imaging Programme Strategy Group (NIPSG) meeting. This included an update on plans for the creation of a sandbox of anonymised data for further testing and research, based on anonymised data from Welsh patients. This sandbox will allow the group to test various AI solutions on NHS Wales patients and infrastructure.
- The AI Strategy Group has progressed work with two Bone Age AI solutions and is taking this work forward with BoneXpert. All health boards will complete a Data Protection Impact Assessment (DPIA) prior to the installation of the solution.

For further information on the Quality, Safety and user Experience Workstream, please contact James.Triscott2@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a

Cynllunio Adnoddau Strategol

Llwyddiannau Allweddol Ch3
2024/25

PROSIECT OFFER DELWEDDU A BLAENORIAETHAU CYFALAF CENEDLAETHOL (NIECP):

- Cafodd yr Adroddiad Adborth Panel Adolygu NIECP newydd ei gwblhau a'i ddsbarthu i'r Fforwm Cyfarwyddwyr Cyllid (DoF), Grŵp Cyfarwyddwyr Cynllunio (DoP), Dirprwyon, Cynorthwyr, Cyfarfod Grŵp Cymheiriaid y Cyfarwyddwyr Clinigol Proffesiynau Perthynol Iechyd a Gwyddor Iechyd (DACDAHPHS) a'r Grŵp Strategol a Gweithredol Diagnosteg (DSOG).
- Bu aelodau'r prosiect yn cyfarfod â chydweithwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i adolygu newidiadau arfaethedig i'r fethodoleg sgorio yn dilyn panel mis Medi. Mae Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Perthnasol wedi'u diweddarw wrth baratoi ar gyfer y Panel Adolygu nesaf.
- Cynhaliwyd sesiwn frifio ar gyfer Dirprwy Hyrwyddwyr Offer a enwebwyd er mwyn helpu i sicrhau bod Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn lleihau nifer y cyfleoedd a gollwyd pe bai cyllid ar gael.
- Mae ymwybyddiaeth o'r broses NIECP yn tyfu ac mae'n cael ei grybwyll/trafod mewn llawer o gyfarfodydd, gan arwain at fwy o ddiddordeb ac ymgysylltiad. Rydym bob amser yn hapus i gefnogi a rhannu gwybodaeth! Yn ystod Ch3 mae Rheolwr y Rhaglen wedi:
 - Cyfarfod â Chadeirydd DACDAHPHS a chyflwyno trosolwg o'r broses i'w haelodau ac wedi ymgynghori ag aelodau a oedd ag ymholiadau penodol.

Strategic Resource Planning

Q3 2024/25 Key Achievements

NATIONAL IMAGING EQUIPMENT AND CAPITAL PRIORITIES (NIECP) PROJECT:

- The new NIECP Review Panel Feedback Report was finalised and circulated to Directors of Finance (DoF) Forum, Directors of Planning (DoP) Group, Deputies, Assistants, Clinical Directors of Allied Health Professions and Health Science (DACDAHPHS) Peer Group Meeting and Diagnostics Strategic and Operational Group (DSOG).
- Met with NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP) colleagues to review proposed changes to scoring methodology following September panel. Relevant Standard Operating Procedures have been updated in preparation for next Review Panel.
- A briefing session was held for nominated Deputy Equipment Champions to help ensure Health Boards and Trusts minimise missed opportunities should funding become available.
- Awareness of the NIECP process is growing and it's being mentioned/discussed at lots of meetings, resulting in increased interest and engagement. We are always happy to support and share information! During Q3 the Programme Manager has:
 - Met with the DACDAHPHS Chair and presented an overview of the process to their members and followed up with members who had specific queries.
 - Met with colleagues in Cardiff & Vale UHB who have started work to

- Cyfarfod â chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sydd wedi dechrau gweithio i sefydlu cofrestr offer meddygol genedlaethol.
- Cyfarfod â'r Arweinydd Clinigol Gwyddor Gofal Iechyd ar gyfer Trawsnewid Gwasanaeth i rannu gwybodaeth a dogfennaeth.
- Yn ogystal, mae Cyfarwyddwyr Cynllunio wedi gofyn am sesiwn loywi ar y broses, felly bydd aelod o'r tîm yn mynychu eu cyfarfod ym mis Ionawr i gyflwyno.

PROSIECT DEALLUSRWYDD BUSNES (BI) CAFFAEL SYSTEMAU GWYBODEG RADIOLEG (RISP):

- Trafodaethau cychwynnol gyda chydweithwyr RISP ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i archwilio sut y gallai'r system newydd gefnogi gwaith trawsnewid gwasanaethau wrth symud ymlaen.

PROSIECT GWASANAETHAU DELWEDDU BREGUS (FIS):

- Ynghyd â chydweithwyr o'r Rhaglenni Endosgopi a Phatholeg Cenedlaethol, cawsom gyfarfod â Chyfarwyddwr Cynllunio Cenedlaethol Gweithrediaeth y GIG a'r Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd i drafod gwaith cenedlaethol sy'n digwydd o ran gwasanaethau bregus yn fwy cyffredinol (nid diagnosteg yn unig) a sut y gallwn weithio ar y cyd, rhannu gwybodaeth ac alinio dulliau.
- Gwnaed ymchwil i ddatblygu dull safonol o fesur breuder, gan gynnwys ymgysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sydd wedi gwneud gwaith sylweddol yn y maes hwn. Datblygwyd diffiniadau arfaethedig, meini prawf pwysoli a holiadur i'w trafod a'u cymeradwyo

establish a national medical equipment register.

- Met with the Healthcare Science Clinical Lead for Service Transformation to share information and documentation.
- In addition, Directors of Planning have requested a refresher on the process, so a member of the team will be attending their January meeting to present.

RADIOLOGY INFORMATICS SYSTEM PROCUREMENT (RISP) BUSINESS INTELLIGENCE (BI) PROJECT:

- Initial discussions with RISP and Digital Health and Care Wales (DHCW) colleagues to explore how the new system could support service transformation work going forward.

FRAGILE IMAGING SERVICES (FIS) PROJECT:

- Along with colleagues from the National Endoscopy and pathology Programmes, we met with the NHS Executive's National Director of Planning and the National Clinical Director for Planned Care to discuss national work happening in regard to fragile services more generally (not just diagnostics) and how we can work collaboratively, share information and align approaches.
- Research undertaken to develop a standardised approach to measure fragility, including engagement with Hywel Dda UHB who have done significant work in this area. Proposed definitions, weighted criteria and questionnaire developed for discussion and approval.

- Cynhaliwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwasanaethau Delweddu Bregus cyntaf ar 28 Tachwedd, lle trafodwyd y dull arfaethedig. Bu trafodaeth ac ymgysylltiad rhagorol gan y mynychwyr, gan arwain at waith pellach i'w wneud ar y dull gweithredu. Bydd y Grŵp nawr yn ailymgynnull ym mis Chwefror 2025.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Cynllunio Adnoddau Strategol, e-bostiwch
Rachel.Howells6@wales.nhs.uk

- The first Fragile Imaging Services Task & Finish Group was held on 28th November, where the proposed approach was discussed. Excellent discussion and engagement from attendees, resulting in further work to be undertaken on the approach. The Group will now re-convene in February 2025.

For further information on the Strategic Resource Planning Workstream, please contact
Rachel.Howells6@wales.nhs.uk

Gwybodeg, Gwybodaeth a Deallusrwydd Busnes

Rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RCSGR) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW).

Informatics, Information and Business Intelligence

Delivery of this workstream is managed via the Digital Health and Care Wales (DHCW) Radiology Informatics System Procurement (RISP) Programme.

Cynhadledd WRD / WRD Conference

Cynhaliwyd ail gynhadledd y Rhaglen Delweddu Genedlaethol mewn cydweithrediad ag Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (NIAW) ar Ddiwrnod Radiograffeg y Byd (8 Tachwedd 2024), a leolir eleni yn adeilad NIAW ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dechreuodd Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gofal a Gynlluniwyd, Andrew Sallows y diwrnod drwy ddisgrifio rôl Delweddu o fewn y Rhaglen Ddiagnosteg, ac yn enwedig rôl y gweithlu. Dilynwyd hyn gan brif araith wych a phryfoclyd gan Dr Chris Turner (Ymgynghorydd Meddygol Brys) 'Civility saves lives'. Arddangosodd Chris Ramshaw (Rheolwr y Rhaglen Arweinyddiaeth Ddigidol, AaGIC) borth arweinyddiaeth Gwella, gyda rhagor o sgysiau gan ein noddwyr yn Philips, GE Healthcare a Canon Medical ynghylch dyfodol CT ac AI o fewn delweddu. Yn olaf, cawsom sgysiau gan Lewis Fackrell (Gweithiwr Cymorth Clinigol Arweiniol Radioleg, CTMUHB), James Williams (Radiograffydd Diagnostig, SBUHB) a Dr Alexander Holborow (Radiolegydd Ymgynghorol, SBUHB) ynglŷn â thaith

The 2nd National Imaging Programme conference was held in collaboration with the National Imaging Academy Wales (NIAW) on World Radiography Day (8th November 2024), located this year in the NIAW building in Bridgend. The National Director of Planned Care, Andrew Sallows commenced the day by describing the role of Imaging within the Diagnostics Programme, and particularly the role of the workforce. This was followed up by a fantastic and thought-provoking keynote speech from Dr Chris Turner (Emergency Medical Consultant) 'Civility saves lives'. Chris Ramshaw (Digital Leadership Programme Manager, HEIW) showcased the Gwella leadership portal, with further talks from our Sponsors at Philips, GE Healthcare and Canon Medical regarding the future of CT and AI within imaging. Finally we had talks from Lewis Fackrell (Lead Radiology Clinical Support Worker, CTMUHB), James Williams (Diagnostic Radiographer, SBUHB) and Dr Alexander Holborow (Consultant Radiologist, SBUHB) regarding the journey of imaging professionals. To finish a brilliant day of

gweithiwr proffesiynol ym maes delweddu. I orffen diwrnod gwych o ddysgu a rhwydweithio, fe wnaethom ddathlu'r Gwobrau Sêr Delweddu, gan gydnabod yr ymdrechion anhygoel a wnaed gan staff ledled Cymru eleni. Roedd yr adborth gan fynychwyr yn hynod gadarnhaol, gyda 100% yn dweud y byddent yn mynychu cynhadledd y flwyddyn nesaf!

learning and networking, we celebrated the Imaging Star Awards, recognising the amazing efforts made by staff across Wales this year. The feedback from attendees was overwhelmingly positive, with 100% saying that would attend a conference next year!



RSNA

Roedd Amanda Evans, Arweinydd y Rhaglen Portffolio Delweddu Cenedlaethol yn ddigon ffodus i dreulio ychydig ddyddiau yn Chicago yn ymweld ag RSNA 2024. Roedd ei thro cyntaf yn y gynhadledd a'r arddangosfa yn brofiad gwych er gwaethaf yr oerfel (roedd y tymheredd yn -10 ond roedd yn teimlo fel -20 gydag oerfel y gwynt). Manteisiodd ar y cyfle i sgwrsio gyda chyflenwyr am ddatblygiadau AI a meddalwedd addysgol ynghyd â threulio amser gyda radiograffwyr eraill (neu dechnolegwyr meddygol, fel y'u gelwir, o Ganada ac Awstralia) yn esbonio prosiectau'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol. Gan lwyddo i gymryd peth amser i ffwrdd i ymlacio wedi'r gynhadledd, archwiliodd ychydig o Chicago gan gynyddu ei chyfrif camau am yr wythnos, heb os.

Amanda Evans National Imaging Portfolio Programme Lead was fortunate enough to spend a few days in Chicago visiting RSNA 2024. Her first time at the conference and exhibition was a fantastic experience despite the cold (the temperature was -10 but felt like -20 with the wind chill). She took the opportunity to chat with suppliers about AI developments and educational software plus spent time with other radiographers (or medical technologists as they are called from Canada and Australia) explaining the National Imaging Programme projects. Managing to take some downtime away from the she explored Chicago a little and certainly increased her step count for the week.





Newyddion am y Rhaglen

Uchafbwyntiau allweddol eraill o Chwarter 3:

- Cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf y Grŵp Penaethiaid Radiograffeg Proffesiynol ym mis Hydref yn Llandrindod. Roedd Gill Lingwood yn bresennol a chynhaliodd drafodaethau

Programme News

Other key highlights from Quarter 3:

- The first face-to-face meeting of the Radiographer Professional Head Group took place in October in Llandrindod Wells. Gill Lingwood attended and held positive discussions regarding a

cadarnhaol ynglŷn â
“Chymuned Ymarfer”
delweddu yn dilyn
argymhellion gwaith AaGIC
ar gapasiti amnewid
myfyrwyr radiograffeg
ddiagnostig.

- Mae'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol wedi lansio tudalen newydd ar ein gwefan ar gyfer adnoddau - Adnoddau - [Gweithrediaeth GIG Cymru](#). Yma, gallwch ddod o hyd i adnoddau cenedlaethol megis dogfennau canllaw a swydd-ddisgrifiadau. Os oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn cael ei rannu yma, rhowch wybod i ni.

imaging “Community of Practice” following the recommendations of the HEIW work on diagnostic radiography student replacement capacity.

- The National Imaging Programme has launched a new page on our website for resources - [Resources - NHS Wales Executive](#). Here you can find national resources such as guidance documents and job descriptions. If there's anything that you would like to see shared here, please let us know.

Gwneud eich rhan!

Gwefan: [Rhaglen Delweddu Genedlaethol - GIG Cymru Gweithrediaeth](#)

Os oes arnoch angen cysylltu ag aelod o dîm y Rhaglen Delweddu Genedlaethol, e-bostiwch: [NHSWHC.National.Imaging.P
rogramme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

**Rhifyn nesaf – Mawrth
2025!**

Get involved!

Website: [National Imaging Programme - NHS Wales Executive](#)

If you need to contact a member of the National Imaging Programme team, please email:

[NHSWHC.National.Imaging.P
rogramme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

**Next edition – March
2025!**

NHS Wales Health Collaborative | 1st Floor, River House, Ynys Bridge Court, Gwaelod y Garth | Cardiff, CF15 9SS GB

[Unsubscribe](#) | [Update Profile](#) | [Our Privacy Policy](#) | [Constant Contact Data Notice](#)



Try email marketing for free today!